Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Effeithiau llifogydd

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn amlygu'r pwysigrwydd o reoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, gan ganolbwyntio ar lifogydd. Gall cartrefi dan ddŵr achosi pryder a cholled i'r rhai sy'n cael eu heffeithio. Mae'r gweithgaredd hwn yn edrych ar effeithiau byrdymor a pharhaus llifogydd.




Pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei holl waith yw cyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae hyn yn golygu edrych ar ôl aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd er mwyn gwella lles Cymru, ac i ddarparu dyfodol gwell i bawb.

## Amcanion

**Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn bydd y dysgwyr yn gallu:**

- **Rhestru rhai effeithiau byrdymor a pharhaus llifogydd**
- **Adnabod rhai o'r problemau mae'r effeithiau hyn yn gallu ei achosi i gymuned**
- **Trafod sut y gallent effeithio ar wahanol bobl o fewn y gymuned**

## Yr amser sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd

20 munud

## Lleoliad

Unrhyw le

addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cysylltiadau â'r cwricwlwm

### CA2

### ABCh
**Dinasyddiaeth weithgar**
Gwerth teulu a ffrindiau fel ffynhonnell o gymorth i'w gilydd

**Iechyd a lles emosiynol**
Deall ystod o deimladau ac emosiynau eu hunain ac eraill - pwysigrwydd diogelwch personol

**Gweithio gydag eraill**
Uniaethu gyda phrofiadau a theimladau pobl eraill

### Offer ac adnoddau

- Cardiau Trafod: Effeithiau llifogydd

### CA3 Daearyddiaeth

### ABCh
**Dinasyddiaeth weithgar**
Deall materion yn ymwneud â mynediad o fewn y gymuned a gallu gwahaniaethu rhwng gwahanol lefelau o anghenion dysgu ac anabledd
Deall materion lleol a byd-eang cyfoes

**Iechyd a lles emosiynol**
Arddangos agwedd gyfrifol tuag at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach

**Datblygu cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang**
Datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb personol tuag at faterion lleol a byd-eang

**Gweithio gydag eraill**
Uniaethu gyda phrofiadau, teimladau pobl eraill a chamau gweithredu

## Beth i'w wneud

- Esboniwch wrth y dysgwyr bod *effeithiau llifogydd* yn aml yn rai byrdymor a hirdymor neu du hwnt i hynny.
- Gan weithio mewn grwpiau gofynnwch iddyn nhw drafod pa fath o effeithiau gall llifogydd ei gael ar bobl a'r ardal leol.
- Defnyddiwch gardiau trafod *Effeithiau llifogydd* i drafod rhai o effeithiau byrdymor a pharhaus llifogydd (naill ai'n hirdymor neu du hwnt i hynny).
- Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried rhai o'r problemau y byddai'r effeithiau hyn yn eu hachosi a sut y gallent effeithio ar wahanol bobl sy'n agored i niwed yn y gymuned. (Gallwch gysylltu hyn i'r gweithgaredd *Canlyniad Llifogydd*).
- Adborth a thrafod canfyddiadau.

**Awgrymiadau o gwestiynau allweddol**

- Dychmygwch eich bod newydd ddychwelyd i'ch cartref ar ôl llifogydd. Pa fath o ddifrod a allai fod yno?
- Sut y byddai hyn yn gwneud i chi deimlo?
- Pa effeithiau byrdymor a hirdymor sydd gan lifogydd ar bobl yn eich barn chi?
- Pa aelodau o'r gymuned fyddai'n ei gweld hi'n fwy anodd i ymdopi gydag effeithiau llifogydd neu fyddai angen ein cymorth?

## Addasu ar gyfer gwahanol anghenion / galluoedd

Llai galluog
- Edrychwch ar rai o effeithiau byrdymor llifogydd a thrafodwch rhai o'r problemau y gallent eu hachosi.
- Gellir cysylltu hyn i'r gweithgaredd *Canlyniad Llifogydd* a thrafod y problemau mewn perthynas â gwahanol bobl yn y gymuned.

Mwy galluog
- Gofynnwch i'r dysgwyr ychwanegu ychydig o syniadau eu hunain at y cardiau trafod.
- Yn hytrach na rhoi cardiau trafod i'r dysgwyr, rhowch gardiau gwag a gofynnwch iddyn nhw wneud rhestr yn seiliedig ar yr hyn y maent yn meddwl ydy rhai o effeithiau byrdymor a hirdymor llifogydd.

## Dilyniant/Estyniad i weithgaredd

- Rhowch gynnig ar y gweithgaredd *Canlyniad Llifogydd.*

## Gwybodaeth Ychwanegol

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Swyddogion Ymgysylltu Ymwybyddiaeth Llifogydd sy'n gweithio gyda chymunedau sydd mewn perygl o lifogydd.

Am fwy o wybodaeth ewch i wefan CNC:
https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=cy

Os oes angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall, er engraifft mewn print bras neu mewn iaith arall, cysylltwch ag:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000
www.cyfoethnaturiol.cymru

Mae coetiroedd Llywodraeth Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®
Welsh Government woodlands have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®
FSC® C-115912
Argraffwyd ar bapur Revive Offset wedi'i ailgylchu 100%
Printed on Revive offset 100% recycled paper
FSC® C008921

NRWRC000